



Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	30 Ebrill 2025
Aelod Arweiniol / Swyddog	Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr adroddiad	Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024–25

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 i'r Pwyllgor, sy'n darparu barn gyffredinol y Prif Archwilydd Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n llywio'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) ynghyd â'r GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU yn diffinio natur archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU, ac yn nodi egwyddorion sylfaenol ar ei gyfer.
- 2.2. Er mwyn sicrhau bod yr holl Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'r GIAS newydd, mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), wedi adolygu'r safonau a llunio GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU ym mis Chwefror 2025 ac mae gan Awdurdodau Lleol 12 mis o 1 Ebrill 2025.
- 2.3. Mae'r GIAS newydd ynghyd â'r GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'prif weithredwr archwilio' ddarparu barn flynyddol ar archwilio mewnol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu blynyddol. Dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, mae'n ofynnol iddo ystyried adroddiad blynyddol y Prif Archwilydd Mewnol.

2.4. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod adolygiad o drefniadau llywodraethu yn cael eu hadrodd o fewn yr awdurdod, yn achos y Cyngor, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio, ac yn allanol gyda chyfrifon a gyhoeddir gan yr awdurdod. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn adolygiad blynnyddol o systemau rheolaeth fewnol ac yn casglu sicrwydd o amryw o ffynonellau i'w gefnogi. Mae Archwilio Mewnol yn gyfrannwr allweddol, a dylai'r Prif Archwilydd Mewnol ddarparu adroddiad blynnyddol ysgrifenedig i'r rhai â chyfrifoldeb dros lywodraethu i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ynglŷn ag adroddiad blynnyddol a 'barn' gyffredinol y Prif Archwilydd Mewnol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Aeth Strategaeth Archwilio Mewnol 2025–26 ger bron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w chymeradwyo ar 19 Mawrth 2025. Eleni, fodd bynnag, mae'r cynllun Archwilio Mewnol wedi'i dynnu o'r Strategaeth a bydd yn hytrach yn cael ei gyflwyno fel dogfen ar wahân i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Mehefin 2025.

4.2. Bydd y ddogfen yn nodi'r sefyllfa o ran archwiliadau sydd yng nghynllun archwilio 2025/26 a'r rhai a gafodd eu cario ymlaen o 2024/25. Mae gan Archwilio Mewnol gynllun hyblyg er mwyn adolygu'r meysydd sy'n peri'r risgiau mwyaf yn gyntaf. Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn fel rhan o Adroddiad Diweddarur'r Adain Archwilio Mewnol.

4.3. Wrth ystyried ei 'farn' Archwilio Mewnol, mae'r Prif Archwilydd Mewnol wedi gorfod ystyried nifer o ffactorau allweddol sydd wedi atal y tîm rhag gallu cwblhau cynllun Archwilio Mewnol 2024/25:-

- Mae'r tîm wedi gwneud gwaith ar bum ymchwiliad arbennig,
- Bu tri aelod o'r tîm yn gwirfoddoli i gefnogi'r Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol i gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff newydd,

- Llwyddodd un o'r Uwch Archwilydwr – Llwybr Gyrfa i gael swydd newydd mewn tîm cyllid, ac
- Eleni, bu lefelau o salwch o fewn y tîm na welwyd eu tebyg o'r blaen.

- 4.4. Mae swydd wag i Uwch Archwilydd – Llwybr Gyrfa wedi bod yn y tîm ers 25 Tachwedd 2024, ond mae'r Prif Archwilydd Mewnol wedi bod yn cyfarfod gyda'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio'n rheolaidd i drafod sut mae modd llenwi'r swydd hon.
- 4.5. Nid yw Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25 wedi'i gwblhau oherwydd nifer o broblemau sydd wedi'u nodi ym mharagraff 4.3 uchod. Mae hyn felly wedi golygu bod y Prif Archwilydd Mewnol wedi adolygu'r cynllun drwy gydol y flwyddyn ac wedi newid rhywfaint arno i ganolbwyntio ar feysydd sydd mae angen i'r Cyngor eu blaenoriaethu ac mae modd eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael gan yr Adain Archwilio Mewnol.
- 4.6. Mae fy marn yn seiliedig yn bennaf ar gwblhau'r cynllun mewnol sy'n seiliedig ar risg. Gwelwch Atodiad 1 ar gyfer rhestr o ganlyniadau archwilio a diffiniadau o'r sgôr sicrwydd. Ni chafodd unrhyw archwiliad yn ystod y flwyddyn sgôr sicrwydd 'Isel', gyda'r lleill yn derbyn sgôr sicrwydd 'Uchel' neu 'Canolig'. Lle mae problemau arwyddocaol wedi dod i'r amlwg, ar y cyfan, mae'r rhain wedi'u datrys yn briodol, sy'n cadarnhau bod rheolwyr yn ymateb i'n gwaith ni.
- 4.7. Mae Archwilio Mewnol wedi cwblhau tri darn o waith ymgynghorol yn ystod y flwyddyn, ond mae trafodaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth yn golygu y bydd mwy o adolygiadau ymgynghorol yn cael eu cynnal ym flwyddyn ariannol 2025/26. Mae hyn yn arwydd cadarnhaol sy'n dangos bod rheolwyr yn fodlon ymgysylltu ag Archwilio Mewnol i greu amgylcheddau risg a rheoli da.
- 4.8. Mae ein gwaith wedi amlygu rhai gwendidau wrth reoli risg a/neu reolaethau a all olygu ein bod ni'n methu â chyflawni amcanion. Mae angen gwelliannau i fynd i'r afael â meysydd o'r fath er mwyn i'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fod yn ddigonol.
- 4.9. Mae barn flynyddol Archwilio Mewnol ynghlwm yn Atodiad 1 ac yn dod i'r casgliad y gellir rhoi sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Rôl Archwilio Mewnol yw darparu sicrwydd o ran digonolrwydd ac effeithlonrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor. Mae pob un o'r meysydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cyngor yn gallu darparu ei holl flaenoriaethau corfforaethol fel y nodwyd yn ei gynllun corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Mae'r camau i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a pholisïau'r Cyngor yn cael eu gwneud o fewn y cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Ymgynghorwyd â swyddogion ac Archwilio Cymru wrth ddrafftio'r Strategaeth Archwilio Mewnol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Gall system rheolaeth fewnol annigonol ac aneffeithiol gael effaith andwyol ar brosesau rheoli risg y Cyngor a llywodraethu corfforaethol ehangach, ac felly, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.
- 10.2. Mae'r GIAS newydd ynghyd â'r GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilio Mewnol werthuso effeithiolrwydd rheoli risg a chyfrannu tuag at wella prosesau rheoli risg. Lle mae risgiau'n dod i'r amlwg fel rhan o'r

broses Archwilio Mewnol, cytunir ar gynlluniau gweithredu a chaiff y rhain eu monitro er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.